

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Nos Fercher, 1af Ebrill 2026

Presennol

Cynghorwyr – R Ashton (Cadeirydd), B Jones (Is-Cadeirydd), I Edwards, F Cauley, G Davies, S Evans, E Davies, E Lewis, D Jones a G Mitchell (Powys)

Ymddiheuriadau - P Jones

Absennol –

Cynnigiodd y Cadeirydd, R Ashton croeso cynnes i bawb

Cyflwyniadau – Dim

Datganiadau diddordeb – Dim

Cytuno Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol blaenorol ar 4ydd Mawrth 2026

Pawb yn gytun

Materion yn codi

1. Cyfleusterau cyhoeddus - Bydd angen drysau allanol newydd ac mae tanc dŵr yn y dynion yn gorlifo – Clerc i wneud ymholiadau
2. Nawdd Windfall – Mae'r Clerc wedi casglu'r holl dyfyniadau newydd gan y cyflenwyr gyda cadarnhad eu fod yn gallu gwneud y gwaith er gwaethaf yr oedi ac am y pris a gynigwyd yn wreiddiol. Mae'r cyfreithwyr yn trafod manteision Trwydded yn hytrach na Hawddfaint ar gyfer y cytundeb gyda'r tirfeddianwr. Cytynwyd fod 10 mlynedd yn gyfnod teg i ofyn am i'r Trwydded cyn adolygiad
3. Y Cae Mawr – Mae R Ashton wedi trafod rhoi defaid i bori ar y cae gyda ffarmwr lleol sydd wedi cytuno rhoi ffens o amgylch y sietydd fawydd newydd ac i cynnal y terfynnau am ddwy flynedd yn lle talu rent. Clerc i drafftio cytundeb ffurfiol
4. Golau stryd wrth troiad Llanerfyl ar yr A470 – Cafodd y Clerc cyfarfod gyda swyddfa Russell George AS ac fydd Diane Poston-Jones yn gwneud ymholiadau am y camau nesaf – Dim diweddariad
5. Arolygu trefniadau rhwng y Cyngor a Claerwen yn Bont - Cyflwynwyd cytundeb yn cynnwys yr amodau i gyd i'w llofnodi gan y Cadeirydd a'r perchenog – F Cauley i gydlynu
6. Hysbysfyddau – Mae costau un newydd i Pennant wedi ei cynnwys yn y cyllideb ar gyfer y blwyddyn ariannol nesaf – Clerc a F Cauley i gydlynu ar syniadau – Dim diweddariad. Diolch yn fawr iawn i F Cauley am trwsio hysbysfwrdd Llan sydd rwan yn llawer mwy ymarferol
7. Croesfan ar yr A470 ym mhentref Llanbrynmair – Cafodd y Clerc cyfarfod gyda swyddfa Russell George AS ac fydd Diane Poston-Jones yn gwneud ymholiadau am y camau nesaf – Dim diweddariad
8. 'Charging point' ym maes parcio'r pentref – G Mitchell i cyfeirio'r Clerc at swyddogion/asiantaethau i rhoi cyngor ar y posibilïadau technegol cyn mynd ymhellach
9. Diweddariad ar Diffibrilwyr – Cafodd deffibrilwr newydd ei osod ar toiledau cyhoeddus y pentref. Bydd angen pads newydd i'r diffibrilwr yn Llan yn ystod y mis yma

10. Arwydd llwybr cyhoeddus i Newydd Fynyddog – Clerc i edrych ar yr arwydd ac i ddod o hyd i bolt newydd iddo fo
11. Blwch rhoddion i'r toiledau – Clerc wedi prynu'r bocs ond heb ei ddebyn eto
12. Posterï am cadw cŵn ar tennynau – Casglwyd arwyddion o'r NFU i ddosbarthu lle bo angen
13. Cyfarfod Rhanbarthol Un Llais Cymru – Ebrill y 21ain yn Llanbryn-mair. Cyngor i paratoi lluniaeth – Clerc i cydlynnu cyfraniadau gan y Cyngorwyr
14. Sietyn yn Llan tu allan Wyngate wedi gortyfu – Clerc wedi ysgrifennu llythyr i'r perchnogion – dim diweddariad
15. Hyfforddiant Bioamrywiaeth – F Cauley wedi gwneud ar 23ain mis Mawrth ac am trefnu'r ail rhan. Adroddwyd bod angen cynnwys Bioamrywiaeth ar pob agenda
16. Cyfarfod Powys Cynladwy 2ail Mawrth, Theatr Hafren – Mynychwyd gan y Clerc a F Cauley
17. Golwg pentref Llanbryn-mair – Gofynwyd i Open Reach trwsio'r ffens wrth y maes parcio ond nid ydynt yn gyfrifol amdano. E Lewis i gwneud ymholiadau. Cafodd grŵp Sbwriel a Sbri sesiwn o gasglu sbwriel yn y maes parcio, y cae chwarae a'r cae mawr a darganfyddwyd llawer o faw cŵn ar hyd sietyn yn y cae chwarae. Cyтынwyd i edrych i mewn i osod camera ar wal y toiledau i ceisio recordio troseddwr
18. Arwydd ar gyfer Station House – Nid ydy'r rheolwyr am rhoi arwydd i'r tŷ ac mae hyn yn achosi ymwelwyr i fynd ar goll. Cyтынwyd y byddai newid y côd post o gymorth i sat-navs – G Mitchell i gwneud ymholiadau
19. Nenfwd y stafell snwcer – Mae'r Clerc mewn trafodaeth gyda Adran Assedau Powys ynglyn a trefnu prydles ffurfiol ar gyfer yr adeilad
20. Gardd fler yng Nghlanclegyr – Dealltwyd fod yna perchnogion newydd yn rhif 103 a bod y gardd wedi cael ei tacluso
21. Buddsoddiant gan cwmni BAM – Clerc wedi danfon rhestr o posibilïadau atynt i'w ystyried
22. Golau i'r llwybr rhwng y garejes a'r Ganolfan yng Nghlanclegyr – Mae G Mitchell wedi cael cyfarfod ar y safle gyda swyddogion Powys i trafod amryw o ddatblygiadau yn cynnwys y garejes ond er bod yna dealltwriaeth mewn egwyddor, mae'n anhebyg o fod yn blaenoriaeth am y tro
23. Hyfforddiant i'r Clerk a'r Cadeirydd – Paratoi at yr Awdit – Wedi ei trefnu
24. Goleuadau wrth y ganolfan ddim yn gweithio – Pwyllgor y Ganolfan i edrych mewn iddo fo
25. Monitro ansawdd dŵr yr afonydd – Trafodwyd amryw o broblemau gyda'r ansawdd dŵr a sut i'w profi a'i recordio. Cyтынwyd i gofyn i Dŵr Cymru am cyfarfod ar y safle trîn dŵr yn Nhafolwern
26. Angen hongian y giât yn well rhwng y Cae Mawr a'r Cae Bach – B Jones i edrych arno fo
27. Local Impact Report' ar gyfer datblygiad Fferm Wynt Esgair Galed gan Bute Energy – Mae'n bosib fydd yna cyfle yn mis Rhagfyr i'r Cyngor gwneud asesiad effaith lleol. Trafodwyd y posibilïad o gynnal cyfarfod cyhoeddus ar ei gyfer
28. Cyfathrebu trwy Facebook a'r we-fan – Dealltwyd fod angen ystyried gwahanol ffyrdd o gyfathrebu yn y dyfodol. Clerc i arbrofi wrth cyhoeddi'r adroddiadau flynyddol.
29. Llwybr o Ddolfach i Lanbryn-mair – Er nad oes llawer o obaith dod o hyd i gronfa addas i'r fath prosiect, cyтынwyd i parahau i edrych gyda meddwl agored

Materion ffyrdd

CSP

Lleoliad	Adroddwyd	Nodiadau
Llifogydd ar y B4518 wrth Maesgwian	le	Clerc wedi adrodd i Powys
Cyflwr Ffordd Bryneinty	le	Mae'r cylfert wedi cael ei drwsio a'r pant heibio Bryneintu wedi cael ei lenwi
Cyflwr y ffordd rhwng Llan a Dolgadfan	le	G Mitchell wedi trafod gyda swyddog Powys, nid ydy'r broblem yn ddigon fawr i fod yn blaenoriaeth eto
Cyflwr y ffordd i Cwm Tafolog	le	G Mitchell wedi cadarnhau fydd y ffordd yn cael sylw
Cyflwr ffordd Bont wrth troiad Foel islaw Lluet	le	Y ffordd o Talerddig i Bont yn mynd i gael arwyneb newydd
Dibyn wrth ochr ffordd Bont ger Isfryn		
Tyllau yn y ffordd heibio Llwyncleyn		Mae'r ffordd yr holl ffordd i Llanerfyl yn ddrwg
Croes Heol, Ffordd Pandy – cerrig a dibyn		B Jones wedi trafod y problem gyda'r tîrfeddianwr

Asiant Cefnffyrdd

Lleoliad	Adroddwyd	Nodiadau
Coed rhwng Station Garage a Pont Brics angen eu thorri	le	Network Rail wedi tocio'r coed ar ei tir nhw. Clerc i gwneud ymholiadau am y darn o sietyn nesaf wrth ymyl Llysun
Arwyneb y ffordd o gwmpas Pont Bel		Clerc wedi adrodd i NMWTRA

Adroddiad ar lafar gan Cyng Gary Mitchell (Cyngor Sir Powys)

Gohebiaeth

- Hyb iechyd Drenewydd – wedi derbyn caniatad cynllunio amlinellol
- Cofnodion Esgair Galed
- Gwahoddiad i Gorymdaith yr Eisteddfod yn Llanidloes
- Un Llais Cymru - Cyfleoedd am grantiau

Cynllunio

Cyfriflen a balans ariannol

Ar gael ar 18/03/26

Cyfrif Cyfredol	£11,806.78
Cyfrif Cadw	£3,019.75
Cyfanswm	£14,826.53
Sieciau heb eu cyflwyno	£0
Balans ar gael	£14,826.53

Ceisiadau a thaliadau ariannol

£	Eitem	Cyfanswm	Nodiadau
----------	--------------	-----------------	-----------------

01/04/26	Cyflog y Clerc – Mawrth	£417.60	Cytynwyd
01/04/26	Treth a NI - Mawrth	£104.40	Cytynwyd
01/04/26	Mr R A Hughes – Gwasanaethau cyfieithu - Mawrth	£130.00	
01/04/26	Andrew Mears – Glanhau toiledau	£210.00	Cytynwyd
01/04/26	S Reast – Blwch rhoddio	£48.00	Cytynwyd
01/04/26	Treth Maes Parcio	£527.10	Cytynwyd
01/04/26	Cyfraniad tuag at Eisteddfod Rhyngwladol Llangollen	£100.00	Cytynwyd

Unrhyw fater arall

Eitemau ar gyfer yr agenda nesa

- E Davies - Angen arwydd 'dead end' ar ffordd Cefn, Pennant
- F Cauley – Plannu yn y pentref
- F Cauley – Ffilm 'Natural Emergency Briefing'

Cynhelir y Cyfarfod Blynnyddol ar nos Fercher, 6ed mis Mai 2026.

Cynhelir y Cyfarfod Cyffredinol canlynol ar nos Fercher, 3ydd mis Mehefin 2026

Sarah Reast, Clerc i Gyngor Cymuned Llanbrynmair